



Ymateb i goronafeirws – canllawiau ar drafodion ariannol

CYFLWYNIAD

Paratowyd y canllawiau hyn i helpu mudiadau gwirfoddol gyda materion diogelu sy'n ymwneud â thrafodion ariannol yn ystod yr achos coronafeirws.

Mae hwn yn faes risg allweddol i fudiadau, gwirfoddolwyr a buddiolwyr ac mae'n hanfodol bod arfer da yn cael ei ddilyn er mwyn lleihau'r risg o niwed.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Arfer da cyffredinol
- Rhagofalon diogelwch
- Trafodion ariannol a gweithwyr cymorth
- Opsiynau ar gyfer defnyddio neu newid systemau sy'n seiliedig ar arian parod
- Adnoddau defnyddiol

ARFER DA CYFFREDINOL

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid osgoi trafodion arian parod fel dull o dalu am nwyddau a gwasanaethau. Efallai mai arian parod fydd yr unig ddewis sydd ar gael i rai pobl ac felly rhaid parhau i gynnig y dewis ond dylid ei wneud mor ddiogel â phosibl. Gweler isod.

Gyda systemau cyfnewid electronig, trosglwyddiadau banc, taliadau cardiau a wneir dros y ffôn neu ar-lein mae llai o gyfle i ladrata ac achosion o gam-drin ariannol gan fod modd eu holrhain. Dylai unigolion wneud trefniadau talu gyda/drwy gyflenwyr cyfarwydd yn unig.

Ni ddylid gofyn i unrhyw un drosglwyddo ei gerdyn debyd neu gerdyn credyd i berson arall oni bai eu bod yn adnabod ac yn ymddiried yn llwyr yn y person hwnnw neu honno e.e. aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr cymorth dynodedig.

Mae'r terfyn ar gyfer defnydd digyswllt o gardiau debyd yn codi i £45 fesul taliad ac mae'n bosibl ei ddefnyddo sawl gwaith yn ystod un diwrnod cyn y gofynnir am y PIN fel mesur diogelwch.

Mae defnyddio cerdyn banc gyda PIN yn caniatáu mynediad i swm sylweddol o arian (os yw'r cyfrif yn iach) oni bai y gosodir defnydd penodol neu derfyn ar godi arian parod gan y banc. Mae deiliad y cyfrif yn atebol am unrhyw gamddefnydd o gerdyn os yw wedi trosglwyddo'r PIN i unrhyw un arall.

Dylai unrhyw un sy'n pryderu am achos amheus neu anawdurdodedig o godi arian parod o'u cyfrifon gysylltu â'u banc ar unwaith.

Mae defnyddio cardiau a all fod â swm penodol arnynt, fel cerdyn rhodd neu gerdyn arian parod (gweler yr enghreifftiau isod) yn cyfyngu ar wariant ac nid oes mynediad i godi arian parod o gyfrif banc y deiliad.

RHAGOFALON DIOGELWCH

Dylid osgoi cyfnewid arian parod ar bob cyfrif (er mwyn lleihau'r siawns o ddwyn a heintio). Mae darnau arian yn gallu cario'r firws a gall fyw am beth amser ar arwynebau caled fel metel. Gellir sychu darnau arian gyda hylif diheintio dwylo neu eu golchi mewn dŵr a sebon. Mae hefyd yn bosibl sychu'r math newydd o arian papur yn lân gyda diheintydd neu sebon. Maent i fod yn eithaf gwydn. Efallai na fydd nodiadau hŷn mor wydn ... Dylai pob darn arian ac arian papur a roddir fel newid gael eu golchi/eu diheintio.

Os na ellir osgoi cyfnewid arian parod, dylai unrhyw un sy'n gwneud taliadau drwy arian parod olchi eu dwylo cyn rhoi arian parod mewn bag plastig wedi'i selio, gyda nodyn yn dweud faint o arian sydd ynddo, y rhestr siopa, a'r dyddiad. Dylai'r unigolyn ysgrifennu nodyn i ddweud faint a roddir yn y bag,

gyda'r dyddiad. Mae'n hawdd iawn anghofio faint o arian a drosglwyddwyd ac felly faint o newid y dylid ei ddisgwyl. Hefyd gellid tynnu ffotograff o'r bag gydag arian parod ac arian papur. Dylai deiliaid tai aros hyd nes y bydd eu gwirfoddolwr yn cyrraedd cyn rhoi'r arian y tu allan.

Bydd gan wirfoddolwyr o fudiadau cydnabyddedig gerdyn adnabod y gallant ei ddangos i ddeiliad y tŷ drwy'r ffenestr. Dylai'r cerdyn adnabod gynnwys ffotograff a rhif i'w ffonio, er mwyn gwirio mai nhw ydynt.

Dylid cynghori deiliaid tai i ffonio'r rhif hwnnw os ydynt yn bryderus. Hefyd, ni ddylent agor y drws i unrhyw un nad ydynt yn sicr ohono neu ohoni, a hyd yn oed wedyn, dim ond pan fo'r person yn sefyll yn bell i ffwrdd fel yr argymhellir gan [GIG Cymru: COVID-19 - Cyngor hunan-ynysu](#). Os oes pryderon neu amheuan ynglŷn â pherson ar stepen y drws, dylai deiliad y tŷ ffonio'r rhif ar gerdyn adnabod y gwirfoddolwr (os yw'n cael ei ddangos), yr awdurdod lleol neu'r heddlu ar 999.

Pan fydd y gwirfoddolwr yn camu'n ôl (tua hyd car bach), gellir gosod y bag arian y tu allan i'r drws. Unwaith y bydd wedi mynd yn ôl i mewn, efallai y bydd deiliad y tŷ am wneud nodyn o'r amser y casglwyd yr arian.

Fel tystiolaeth o'r eitemau a brynwyd, y costau a'u bod wedi'u danfon, gellir anfon ffotograffau a dynnwyd ar ffôn symudol gan y gwirfoddolwr i ffôn deiliad y tŷ, neu i aelod o'r teulu, yn ogystal â'u cadw gan y sefydliad.

TRAFODION ARIANNOL A GWEITHWYR CYMORTH

Defnydd o arian parod mewn gwasanaethau i rai ag anabledd dysgu sy'n byw mewn tai â chymorth

Yng ngoleuni'r pandemig presennol, ac i liniaru'r risg o drosglwyddo Covid-19, nid yw llawer o archfarchnadoedd yn derbyn taliadau mewn arian parod, a gall hyn achosi problemau wrth brynu bwydydd a chyflenwadau eraill. Yn y gwasanaethau i rai ag anabledd dysgu sy'n byw mewn tai â chymorth, boed yn Awdurdod Lleol, yn ddarparwr gwirfoddol neu annibynnol, maent yn debygol o weithredu system sy'n seiliedig ar arian parod.

I lawer o bobl ag anabledd dysgu, mae Awdurdod Lleol yn gweithredu fel Penodai Corfforaethol, a bydd wedi'i gofrestru gyda'r Adran Gwaith a

Phensiynau i ofalu am faterion ariannol unigolyn (Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: Grŵp Arbennig). Byddai'n anarferol rhoi cerdyn debyd neu gerdyn talu ymlaen llaw. Felly, mae cleientiaid yn debygol o gasglu lwfans arian parod wythnosol yn uniongyrchol gan eu Hawdurdod Lleol neu ddarparwr, fel bod ganddynt ddigon i brynu nwyddau wythnosol ac eitemau personol.

Mewn amgylchiadau eraill gall sefydliad trydydd parti hefyd weithredu fel Penodai a gall ddarparu cardiau talu ymlaen llaw y gall cleient a'u staff cymorth eu defnyddio mewn siopau ac mewn peiriannau twll yn y wal ac ychwanegir arian arnynt bob wythnos sy'n golygu nad oes angen iddynt ddefnyddio arian parod.

OPSIYNAU AR GYFER DEFNYDDIO NEU NEWID SYSTEMAU SY'N SEILIEDIG AR ARIAN PAROD

Isod mae sawl opsiwn i hwyluso'r broses o brynu bwydydd ac eitemau hanfodol eraill. Yr hyn sy'n allweddol i unrhyw un o'r camau gweithredu arfaethedig yw bod system gofnodi yn ei lle ar gyfer y rhai sy'n defnyddio system sy'n seiliedig ar arian parod:

Opsiwn	O blaid	Yn erbyn
<p>1. Rhoddir arian parod i weithiwr(wyr) enwebedig o duniau arian parod lwfans wythnosol personol y cleient ac yna maent yn defnyddio eu cerdyn banc personol i dalu am fwydydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn defnyddio'r arian parod yn y gwasanaethau. • Yn gyflym ac yn hawdd ei gweithredu • Gellir tynnu ffotograff fel cofnod i wneud y broses yn symlach a'i uwchlwytho 	<ul style="list-style-type: none"> • Angen i ddau lofnodwr fod yn dystion fod arian parod a gymerwyd o'r tuniau arian parod yn cael ei roi i'r gweithiwr(wyr) • Bydd angen i'r cyflogai gadw cofnodion da, gan gynnwys derbynebaw ar

gyfer yr holl
fwydydd a brynir

- Bydd angen i'r Uwch Weithiwr / Gweithiwr Cymorth gael eu had-dalu

2. Mae Tîm Cyllid yn trosglwyddo swm ymlaen llaw yn uniongyrchol i gyfrif banc y gweithiwr(wyr) enwebedig o bob gwasanaeth fel y gall y gweithiwr brynu bwydydd

- Yn gyflym ac yn hawdd ei weithredu
- Nid yw'n dibynnu ar hylifedd gweithwyr
- Gellir tynnu ffotograff fel cofnod i wneud y broses yn symlach a'i uwchlwytho

- Angen i'r gweithiwr gadw cofnodion da a chyfathrebu'n dda â'r Tîm Cyllid er mwyn gwneud trosglwyddiadau prydlon
- Yn dibynnu ar ewylllys da ein gweithwyr
- Bydd angen i'r Uwch Weithiwr / Gweithiwr Cymorth gael eu had-dalu yn y man gwerthu

3. Cardiau Siopa Gwirfoddolwyr *
Yr ALL neu ddarparwr arall yn trefnu e-gardiau i weithwyr ar gyfer prynu nwydau ar-lein a ddanfonir i'r cartref neu drwy wirfoddolwr i'w defnyddio yn y siop

- Yn gyflym ac yn hawdd eu prynu ar-lein
- Gallu argraffu neu anfon neges e-bost at weithiwr neu wirfoddolwr
- Gellir ei adael mewn lle diogel

- Mae'n broblem os nad ydynt ar-lein a heb argraffydd
- Byddai gadael yr e-gerdyn y tu allan yn golygu ei fod yn agored i gael ei gamddefnyddio

y tu allan ar gyfer y gwirfoddolwr

- Ni chaiff unrhyw fanylion banc na cherdyn credyd eu cyfnewid
- Mwy diogel na throsglwyddo arian parod
- Gellir ychwanegu arian arnynt ar-lein

os byddai'n hysbys bod hyn yn digwydd yn y gymuned

- A fydd gweithwyr sy'n byw mewn tai â chymorth yn cael slotiau danfon sy'n cael blaenoriaeth

4. Defnyddio arian parod yn unig wrth dderbyn cymorth gwirfoddolwr i brynu bwydydd ac eitemau hanfodol eraill

- Y person sydd angen bwydydd / eitemau hanfodol dan lai o straen ac yn gallu defnyddio arian parod mewn trafodion gyda gwirfoddolwyr
- Os oes system gadarn yn ei lle, gyda gwirfoddolwr cyfarwydd, dylai weithio'n dda i rai pobl

- Yn agored i gael ei gamddefnyddio os bydd arian parod yn cael ei adael y tu allan i dŷ

- | | | |
|--|---|--|
| <p>5. Defnyddio cardiau digyswllt</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Yn dileu'r angen i ddefnyddio sglodyn a PIN neu ddefnyddio arian parod • Mae terfyn uchaf newydd o £45 fesul trafodyn ar gerdyn digyswllt | <ul style="list-style-type: none"> • Risg o gael ei gamddefnyddio os caiff cerdyn ei drosglwyddo i weithiwr neu wirfoddolwr |
| <p>6. Defnyddio cerdyn Monzo neu gerdyn tebyg y gellir ei lwytho gydag arian parod o gyfrif banc cysylltiedig.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gellir cofrestru drwy lawrlwytho ap Monzo naill ai ar iOS neu Android • Nid yw Monzo yn codi unrhyw ffioedd am ddefnyddio'r 'cerdyn' o ddydd i ddydd | <ul style="list-style-type: none"> • Angen cael mynediad i ffôn iOS neu Android ffôn gan ei fod yn cael ei ddefnyddio yn debyg iawn i gerdyn digyswllt o ffôn |
| <p>7. Taliad dros y ffôn wrth y til drwy alwad ffôn gan y gwirfoddolwr i'r person.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Yn fwy diogel gan nad yw cerdyn debyd a rhif PIN yn cael ei drosglwyddo i wirfoddolwr | <ul style="list-style-type: none"> • Gallai achosi ciw wrth y til pan fo gwirfoddolwr yn rhoi galwad ffôn i drefnu'r taliad dros y ffôn |

*Asda: cards.asda.com/volunteer

M&S: www.marksandspencer.com/all-in-this-together/p/p60282075 ('We're All in this Together' cerdyn e-rodd y gellir ychwanegu gwahanol symiau o arian arno)

Diolch i Cartrefi Coop am rannu rhai o'u hawgrymiadau am daliadau a thrafod arian parod.

Pobl hŷn a phobl fregus sy'n hunanynysu ar sail feddygol rhag COVID-19

Efallai y bydd pobl hŷn, sy'n dibynnu ar gael eu pensiwn (sglodyn a PIN) ac arian parod yn eu swyddfa bost leol yn ei chael hi'n anodd cael gafael arno. Nid yw pob is-swyddfa bost mewn siopau cornel ar agor. Gan fod llawer o bobl hŷn bellach yn hunanynysu am ddeuddeg wythnos, ni fyddant yn gallu defnyddio peiriannau twll yn y wal chwaith.

Gall yr opsiwn o brynu e-gardiau fod yn broblem gan na fydd gan bawb WiFi i brynu cardiau o'r fath a gallant hefyd fod yn agored i gael eu camddefnyddio. Trwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt eu Hawdurdod Lleol, mae'n bosibl darparu cyflenwad bwyd wythnosol am ddim i'r rhai sydd wedi derbyn y llythyr hunanynysu, sydd heb gymorth gan aelodau o'r teulu neu ofalwyr i'w helpu gyda bywyd bob dydd. Mae hon yn ffordd fwy diogel o sicrhau bod gan bobl gyflenwadau digonol bob wythnos yn ystod y cyfnod ynysu o ddeuddeg wythnos.

Gwybodaeth arall

- Mae gan Menter a Busnes linell wybodaeth ar gyfer cwestiynau ynglŷn â chyflenwadau bwyd sy'n agored 7 diwrnod yr wythnos. Gellir cysylltu â nhw drwy e-bost. cywain@menterabusnes.co.uk.
- Dyluniwyd cerdyn adnabod gweithiwr allweddol gofal cymdeithasol ac fe'i cefnogir gan Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n ceisio sicrhau bod y cerdyn yn cael ei anfon at bob cofrestrydd ac unigolyn mewn lleoliadau gyda rheolwr cofrestredig yn y lle cyntaf. Bydd cynllun ymgyrchu i gefnogi'r gwaith o adnabod y gweithlu a byddwn yn ceisio dylanwadu ar fanwerthwyr er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael budd a chefnogaeth gweithwyr allweddol eraill: [Gofal Cymdeithasol Cymru - Cwestiynau cyffredin cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol](#)

ADNODDAU DEFNYDDIOL

- [Cyngor PAVO ar trin arian ar gyfer gwirfoddolwyr](#)
- [Datrysiadau Taliad RVS](#)
- [Gwasanaethau Ariannol Rhagdaledig](#)
- [Gwobrwyo Perx](#)